# Dippy y Diplodocus

3 Ebrill 2019

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 8 Mawrth, pan wnaethoch ofyn,

> *Rwy'n ysgrifennu i ofyn am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Er mwyn eich cynorthwyo â'r cais hwn, rwy'n amlinellu fy ymholiad mor benodol â phosibl. A fyddech cystal â darparu'r wybodaeth a ganlyn.*
>
> 1. *Yr asesiad a wnaed cyn penderfynu arddangos Dippy y Diplodocus fel rhan o Dippy ar Daith y mae Amgueddfa Hanes Natur yn ei threfnu.*
> 2. *Y swm o arian a wariwyd ar asesu pa mor addas oedd y Senedd fel lleoliad i arddangos Dippy.*
> 3. *Pryd ddaeth yr Amgueddfa Genedlaethol yn rhan o'r paratoadau / asesiad?*
> 4. *Yr asesiad yn y pen draw a'r rhesymau dros benderfynu arddangos Dippy yn yr Amgueddfa Genedlaethol.*

Rydym wedi ymateb i'ch cwestiynau isod:

1. Dechreuodd trafodaethau rhwng yr Amgueddfa Hanes Naturiol (NHM) a swyddogion Comisiwn y Cynulliad ynghylch arddangos Dippy yn y Senedd ym mis Ebrill 2016. Cynhaliwyd asesiadau technegol gan swyddogion NHM ar y safle yn gynnar yn ystod haf 2016 heb unrhyw gost i Gomisiwn y Cynulliad.

2. Ni wariwyd unrhyw arian ar asesu pa mor addas oedd y Senedd fel lleoliad i arddangos Dippy.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

3. Dechreuodd y trafodaethau cychwynnol gydag Amgueddfa Cymru ynghylch creu partneriaeth -  gan weithio gyda staff Comisiwn y Cynulliad mewn perthynas â deunyddiau ac arddangosfeydd - ddiwedd haf 2016. Dechreuodd trafodaethau rhwng y Comisiwn a'r Amgueddfa ynghylch adleoli Dippy yn gynnar yn 2018.

4. Yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2018, adolygodd y Comisiwn y penderfyniad i arddangos Dippy y Diplodocus yn y Senedd. Roedd y Comisiynwyr am sicrhau y byddai'n cael ei arddangos yn y lleoliad mwyaf priodol yng Nghymru. Cytunodd y Comisiynwyr y dylai swyddogion gysylltu ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i ystyried adleoli'r arddangosfa i sicrhau bod y digwyddiad hefyd yn rhoi cyfle i ymwelwyr weld nifer o gasgliadau hanes natur yr Amgueddfa Genedlaethol.  Cyhoeddwyd y penderfyniad i adleoli'r arddangosfa ym mis Ebrill 2018 http: // www.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF